**Cofnodion Heb eu Gadarnhau o Gyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**04 Mehefin 2026, 10:00 – 12:25**
**Cynhaliwyd yng Nghwr y Ddinas 2 a thrwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Clare Jenkins | (CJ) | Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Bethan Bowden | BB | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Sgrinio (Ar gyfer eitem 4.4) |
| Graham Brown | (GB) | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Meddygaeth (Ar gyfer eitem 4.4) |
| Angela Cook | (AC) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Haydn Childs | (HC) | Rheolwr yr Hwb Gwella ac Arloesi (Arsylwi) |
| Neil Desmond | (ND) | Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch (ar gyfer eitemau 3.3.1 a 4.6) |
| Tom Fowler | (TF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio |
| Sophie Fuller | (SF) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Corfforaethol a Chymorth Busnes, Perfformiad a Gwella'r GIG (ar gyfer Eitem 7) |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 4.5) |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Sarah Owen | (SO) | Pennaeth Ansawdd (Arsylwi) |
| Zoe Pietrzak | (ZP) | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cyllid a Pherfformiad |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Sikha de Souza | (SdS) | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Sgrinio (Ar gyfer eitem 4.4) |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |

Heb eu Gadarnh

| | | |
|---|---|---|
| Huw Williams | (HW) | Pennaeth Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys (Ar gyfer eitem 3.2) |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Jo Kondra | (JK) | Cynrychiolydd Undeb Llafur |
| *Dechreuodd y cyfarfod am 10:00* | | |

**Rhan A**

| | |
|---|---|
| **QSIC 2026.06.04/1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** |

Croesawodd y Cadeirydd bawb i sesiwn gyhoeddus cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2026.06.04/2** | **Datganiad o Fuddiant** |

Nid oedd datganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2026.06.04/3** | **Eitemau i'w cymeradwyo** |
| **QSIC 2026.06.04/3.1** | **Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu** |

Ystyriodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2026 a'u **cymeradwyo** fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gau'r camau gweithredu a gwblhawyd ar y cofnod o gamau gweithredu.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2026.06.04/3.2** | **Adroddiad Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys (EPRR)** |

Cyflwynodd MK yr Adroddiad, gan gadarnhau ei fod yn rhan o'r adroddiadau statudol a roddir i Lywodraeth Cymru a'i fod yn adlewyrchu prosesau parhaus i gryfhau parodrwydd sefydliadol.

Cyflwynodd HW yr adroddiad, gan amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn gofynion statudol, gan gynnwys diweddariad y Cynllun Ymateb Brys (fersiwn 4), a oedd yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o COVID-19 ac ymarferion cenedlaethol. Tynnodd sylw at gyfranogiad helaeth yn Ymarfer Pegasws ac ymarferion eraill ar draws y system, ochr yn ochr â chyfranogiad sylweddol mewn digwyddiadau amlasiantaeth byw.

Daeth HW â'r diweddariad i ben drwy nodi risgiau allweddol a oedd yn ymwneud â chynnal galluogrwydd sefydliadol a phwysau ar seilwaith digidol, yn enwedig gwyliadwriaeth a modelu. Amlinellodd y blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf, a oedd yn cynnwys gwreiddio gwersi a ddysgwyd, adnewyddu trefniadau parhad busnes, a chryfhau cydweithio rhwng y pedair gwlad, gan gynnwys parodrwydd Cemegol, Biolegol, Radiolegol ar Niwclear (CBRN).

Heb ei Gadarnhau

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Ceisiwyd sicrwydd ynghylch cryfder y perthnasoedd â phartneriaid yn y DU a gofynnwyd a oedd unrhyw risgiau'n gysylltiedig â dulliau sy'n canolbwyntio ar Loegr.
- Cadarnhaodd HW fod y perthnasoedd yn gryf ac wedi gwella'n sylweddol, a'u bod yn cael eu cefnogi gan ymgysylltiad rheolaidd a grŵp pedair gwlad sydd wedi hen ennill ei blwyf. Nododd y bu cydweithio effeithiol mewn digwyddiadau byw diweddar, gan alluogi ymatebion cyflym.
- Ychwanegodd MK, o safbwynt ymateb brys, fod perthnasoedd yn gweithredu'n effeithiol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, a chyfeiriodd at enghreifftiau o gyfathrebu a chydlynu cyflym yn ystod digwyddiadau diweddar. Dywedodd fod trafodaethau cenedlaethol wedi egluro rolau a chyfrifoldebau ledled y DU.
- Holwyd sut roedd anghydraddoldebau iechyd yn cael eu datrys wrth gynllunio parodrwydd ar gyfer argyfyngau a sut y byddai cynnydd yn cael ei fesur.
- Rhoddodd HW amlinelliad o ddatblygiad offeryn anghydraddoldebau, wedi'i lywio gan waith ymchwil a gweithdai, i gefnogi cynllunio ac ymateb. Dywedodd y byddai allbynnau'n cael eu rhannu drwy strwythurau llywodraethu.
- Ychwanegodd MK fod anghydraddoldebau wedi'u gwreiddio mewn trefniadau ymateb, gan gynnwys sefydlu swyddogaeth anghydraddoldebau yn ystod Ymarfer Pegasws, a oedd wedi llywio trafodaethau cenedlaethol.
- Dywedodd TF fod dysgu o ymatebion brys y gorffennol, yn enwedig COVID-19, wedi arwain at fabwysiadu dull mwy strwythuredig o wreiddio anghydraddoldebau iechyd mewn trefniadau parodrwydd. Tynnodd sylw at y ffaith bod swyddogaeth anghydraddoldebau bwrpasol wedi'i sefydlu mewn ymarferion diweddar, a oedd yn sicrhau nad oedd yr agwedd hon yn cael ei dadflaenoriaethu yn ystod ymatebion gweithrediadol. Nododd fod y dull hwn wedi creu allbynnau ymarferol, gan gynnwys briffiadau a fu'n werthfawr i bartneriaid system, gan ddangos bod ystyriaethau anghydraddoldebau bellach yn cael eu gwreiddio'n fwy cyson mewn gwaith cynllunio a chyflenwi ymatebion.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â dyletswyddau cynllunio argyfyngau statudol ac yn cynnal trefniadau parodrwydd a chydnerthedd effeithiol.
- **Cymeradwyo** cyflwyniad Adroddiad Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025/26 i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau gofynnol, sef 31 Gorffennaf 2026.
- **Nodi'r** risgiau sefydliadol allweddol a'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer 2026/27 a fyddai'n arwain rhaglen waith Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys sydd ar ddod.

| **QSIC 2026.06.04/3.3.1** | **Polisïau a Gweithdrefnau i'w cymeradwyo** |
|---|---|

Cyflwynodd ND y Polisi Diogelwch Tân a'r Polisi Rheoli Dŵr, gan nodi bod y ddau wedi cael eu hadolygu, eu hymgynghori a'u cryfhau, yn enwedig mewn perthynas ag ymateb i ddigwyddiadau a chadw cofnodion.

Heb eu Gadarnhau

Cyflwynodd PV y Polisi a'r Weithdrefn Rheoli Hawliadau, gan gadarnhau bod y rhain wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r gofynion cyfreithiol a'r trefniadau llywodraethu cyfredol, gan gynnwys newidiadau o ran trosolwg ar arweinyddiaeth.

Cyflwynodd AC y Polisi Atal a Rheoli Heintiau (IPC) a'r Weithdrefn Rheoli Honiadau o Gamdriniaeth gan Staff, gan nodi bod y ddau'n cael eu hadnewyddu'n rheolaidd, eu bod wedi'u diweddaru i adlewyrchu gofynion deddfwriaethol, ac wedi bod yn destun ymgynghoriad ac adolygiad llywodraethu priodol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Mynegi pryder ynghylch fformat a chysondeb dogfennaeth polisi.
- Eglurodd LB y dylai'r polisïau fod yn gryno, gyda chynnwys gweithdrefnol manwl i'w gadw ar wahân, a bod y dogfennau wedi'u cyfuno at ddibenion y Pwyllgor, a bod hynny wedi effeithio ar y cyflwyniad.
- Cadarnhaodd PV fod y dull llywodraethu yn gwahanu datganiadau polisi oddi wrth weithdrefnau manwl ac roedd yn cydnabod yr angen am fwy o gysondeb ar draws y sefydliad.
- Gofyn am gadarnhad bod y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau wedi adolygu ac arnodi'r polisi Atal a Rheoli Heintiau.
- Cadarnhaodd AC fod y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau wedi arnodi'r polisi a byddai'n diweddaru papur eglurhaol y gymeradwyaeth i adlewyrchu'r dyddiad.

**Cam Gweithredu: AC**

Cymeradwyodd y Pwyllgor y canlynol:

- Polisi Diogelwch Tân
- Polisi Rheoli Dŵr
- Polisi Atal a Rheoli Heintiau (IPC)
- Gweithdrefn Rheoli Honiadau o Gamdriniaeth gan Staff
- Polisi Rheoli Hawliadau
- Gweithdrefn Rheoli Hawliadau

| QSIC 2026.06.04/3.3.2 | Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd |
|---|---|

Cyflwynodd LB y papur a oedd yn nodi'r camau gweithredu a gyflawnodd y Cadeirydd rhwng cyfarfodydd i gymeradwyo estyniad 12 mis i Bolisi Cydsynio i Archwiliad neu Driniaeth Cymru Gyfan. Cadarnhaodd LB fod y polisi wedi'i ddiweddaru i sicrhau bod unrhyw risgiau sy'n deillio o bolisi sydd wedi dyddio yn cael eu lliniaru a bod y newidiadau'n fach eu natur.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodi'r** achlysur y cymerwyd camau gweithredu'r Cadeirydd;
  - **Cadarnhau** cymeradwyaeth i estyniad 12 mis i Bolisi Cydsynio i Archwiliad neu Driniaeth Cymru Gyfan.
- Cymryd **sicrwydd** bod y camau gweithredu wedi'u cymryd yn unol ag Adran 8 o'r Rheolau Sefydlog.

| QSIC 2026.06.04/3.4 | Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol a Rhagolwg |
|---|---|

Cyflwynodd AC y diweddariad cynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol, gan amlinellu gweithgarwch archwilio cenedlaethol a lleol.

Heb eu Gadarnhau

Tynnodd AC sylw at y canlynol:

- Bod pob un o'r pum archwiliad cenedlaethol wedi'u cwblhau ac y bu cynnydd sylweddol yn nifer yr archwiliadau clinigol ac ansawdd dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddangos gwelliannau i'r sefyllfa sefydliadol.
- Cynhaliwyd 75 o archwiliadau lleol ar draws llwybrau a gwasanaethau, ac roedd manylion am yr archwiliadau a gwblhawyd, a ohiriwyd a'r rhai a ddilëwyd i'w cael yn yr adroddiad.
- Bod yr adrannau Sgrinio a Diogelu Iechyd yn parhau i gynnal y rhan fwyaf o archwiliadau clinigol a nodwyd bod gweithgarwch archwilio ychwanegol wedi digwydd ar draws gwasanaethau eraill, gan gynnwys Gwasanaethau Heintiau ac Iechyd a Diogelwch, nad oeddent wedi'u cynnwys yn llawn yn yr adroddiad.
- Cyflwynwyd system Rheoli ac Olrhain Archwiliadau (AMaT) i gefnogi'r gwaith o olrhain archwiliadau, gwella trosolwg ar gamau gweithredu, a chryfhau'r gwaith o fonitro archwiliadau sydd wedi'u cwblhau a gweithgarwch dilynol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Gofynnwyd am yr anghysondeb rhwng nifer yr archwiliadau a gwblhawyd a nifer yr adroddiadau archwilio a gafwyd, gan nodi y dylai'r archwiliadau a gwblhawyd gael eu cefnogi gan adroddiad ffurfiol.
- Eglurodd CB fod y broblem yn un hysbys, a bod gwasanaethau ar brydiau'n cwblhau archwiliadau heb roi adroddiad terfynol i'r tîm archwilio. Dywedodd fod y sefyllfa'n gwella ac y byddai cyflwyno AMaT yn cryfhau cydymffurfiaeth ag adrodd trwy wella gwaith olrhain ac atgoffa.
- Nodwyd bod y gwelliant yn rhoi sicrwydd, ond ei bod yn bwysig sicrhau bod yr archwiliadau sy'n cael eu cwblhau yn arwain at ddysgu sefydliadol hygyrch.
- Gofynnwyd cwestiwn ehangach ynghylch sut allai'r sefydliad ddangos effaith gweithgarwch archwilio, gan nodi pwysigrwydd sicrhau bod archwiliadau'n arwain at welliant mesuradwy yn hytrach na throi'n broses fecanyddol.
- Dywedodd AC fod cyflwyno AMaT wedi galluogi cylch archwilio mwy cadarn o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys cofnodi camau gwella, gosod dyddiadau adolygu, ac amserlennu ail-archwiliadau. Cadarnhaodd y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn rhoi mwy o welededd i effaith gweithgaredd archwilio a thystiolaeth o welliant.
- Croesawyd y dull hwn ond soniwyd am bwysigrwydd dangos canlyniadau, yn enwedig o ran gwella gwasanaethau a mynd i'r afael â bylchau a nodwyd.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** ynghylch y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol ar gyfer 2025–26.
- **Cymeradwyo'r** Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol ar gyfer 2026–27

| | |
|---|---|
| **QSIC 2026.06.04/4** | **Eitemau ar gyfer Sicrwydd** |
| **QSIC 2026.06.04/4.1** | **Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Ansawdd Ch4** |

Heb eu Gadarnhau

Rhoddodd AC drosolwg o'r Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Ansawdd ar gyfer Chwarter 4, gan dynnu sylw'r Pwyllgor at feysydd penodol i'w hystyried:

Gweithio i Wella (PTR), Ch4

Rhannodd AC grynodeb o'r adran Gweithio i Wella, a oedd yn cynnwys y digwyddiadau, cwynion a phryderon a adroddwyd ac a weithredwyd arnynt yn ystod Chwarter 4, gan nodi'r bwriad i ailenwi'r adran hon yn Pryderon a Diogelwch Cleifion, yn unol â'r rheoliadau 'Gwrando ar Bobl' newydd:

- Adroddwyd am 490 o ddigwyddiadau, rhoddwyd 2 ddigwyddiad yn y dosbarth niwed cymedrol yn dilyn ymchwiliad, ac roeddent yn gysylltiedig â Sgrinio Serfigol Cymru.
- Roedd 2 Ddigwyddiad Adroddadwy yn Genedlaethol, 1 Adroddiad Rhybudd Cynnar a dim achosion dyletswydd gonestrwydd.
- Fe wnaeth perfformiad wrth gau digwyddiadau ostwng yn chwarter 4, ond bu gwelliant cyffredinol o ran y taflwybr dros y 12 mis blaenorol, gan gynnwys gostyngiadau yn nifer y digwyddiadau agored a digwyddiadau heb eu datrys ers tro.

Profiad Cleifion/Defnyddwyr Gwasanaethau a Rheoli Rhybuddion a Hysbysiadau Diogelwch, Ch4

Tynnodd AC sylw at y canlynol:

- Cofnodwyd 25 o ddatrysiadau cynnar, ac roedd themâu'r pryderon yn cynnwys cyfathrebu, agwedd ac ymddygiad staff.
- Cafwyd 10 cwyn ffurfiol, y rhan fwyaf ohonynt yn deillio o'r gwasanaethau sgrinio. Parhaodd perfformiad rheoli cwynion yn dda ar y cyfan.
- Cafwyd 168 neges o ganmoliaeth, y rhan fwyaf yn diolch i staff.
- Derbyniwyd 48 o rybuddion diogelwch, ac nid oedd angen i'r Sefydliad weithredu ar unrhyw un ohonynt.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Awgrymu y byddai egluro'r cyd-destun yn erbyn lefelau gweithgaredd gwasanaeth er mwyn darparu dealltwriaeth gymesur yn arwain at welliannau o ran nifer y cwynion. Nododd AC, er bod nifer y cysylltiadau i'w weld yn ddiweddarach yn yr adroddiad, y byddai'n diweddaru'r adran i wella eglurdeb adroddiadau yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu: AC**

Gwaith y Grŵp Diogelu Corfforaethol, Ch4

Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y Grŵp Diogelu, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Bu 62 ymholiad diogelu, a'r nifer fwyaf gan y Gwasanaeth Iechyd Rhywiol ac yn ymwneud â phlant mewn perygl; roedd gwaith ar y gweill i gefnogi'r gwasanaeth a chryfhau eu trefniadau diogelu.
- Bu gostyngiad cyffredinol o ran cydymffurfedd â diogelu lefel 3 a chydymffurfedd â Grŵp 2 Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV); gofynnwyd am daflwybr adferiad perfformiad ar gyfer meysydd wedi'u targedu.

Heb eu Gadarnhau

- Risgiau diogelu parhaus ar draws y gwasanaeth Iechyd Rhywiol, yr Adran Gyfathrebu a'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Gofyn am eglurhad ynghylch y gostyngiad mewn cydymffurfiaeth â hyfforddiant.
- Esboniodd AC fod dyrannu gofynion hyfforddi ychwanegol i'r Adran Diogelu Iechyd ac yn benodol grwpiau staff y Gwasanaeth Iechyd Rhywiol wedi effeithio ar gyfraddau cydymffurfio, fodd bynnag, roedd hyn yn gwella. Roedd pwysau gweithredol hefyd wedi effeithio ar bresenoldeb mewn hyfforddiant wyneb yn wyneb. Roedd y tîm wedi cynnig sesiynau pwrpasol, ac roedd camau gweithredu wedi'u targedu ar waith i gefnogi adferiad y cyfraddau cydymffurfio.
- Mynegwyd sicrwydd ynghylch lefel y gefnogaeth a roddir i'r Gwasanaeth Iechyd Rhywiol.

<u>Gwaith y Grŵp Corfforaethol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (IPC), Ch4</u>
Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y grŵp IPC Corfforaethol, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Roedd 21 o ddigwyddiadau'n gysylltiedig ag IPC, gydag un wedi'i adrodd yn wreiddiol fel niwed cymedrol ac yn dal i gael ei adolygu.
- Nodwyd bod gwelliannau i'r seilwaith yn risg barhaus. Nododd AC fod cydymffurfedd ag archwiliadau amgylcheddol yn parhau i fod yn bryder yn Kimberley House, er bod gwelliant wedi'i nodi. Roedd pryderon parhaus ynghylch cyfleusterau dihalogi yng Nglan Clwyd, a oedd yn effeithio ar Sgrinio Coluddion Cymru ac roedd archwiliadau a thrafodaethau pellach ar y gweill.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Hybu ymwybyddiaeth ehangach o'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig ag Atal a Rheoli Heintiau sy'n gysylltiedig â pheryglon dŵr ac amgylcheddol yn Afon Gwy dros fisoedd yr haf, a cheisio sicrwydd bod cyfrifoldebau a llwybrau adrodd clir ar waith. Tynnodd MK sylw at gyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru a dywedodd y byddai'r Sefydliad yn gweithio ochr yn ochr â nhw i ymateb i unrhyw rybuddion.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodi'r** safonau perfformiad sy'n cael eu cyflawni a meysydd i'w gwella.
- Cymryd **sicrwydd** bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau gwasanaethau diogel, prydlon, effeithiol, teg, effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

| **QSIC 2026.06.04/4.2** | **Diweddariad Ymgysylltu** |
|---|---|

Cyflwynodd CB yr adroddiad, gan amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu a gytunwyd yn flaenorol i gryfhau dull y sefydliad o ymgysylltu a chyd-fynd â gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Tynnodd CB sylw at y canlynol:

Heb eu Gadarnhau

- Symudiad tuag at ddull sefydliadol mwy cydlynol, gan gynnwys cydweithio'n agosach â'r tîm cyfathrebu a datblygu cymuned ymarfer i gefnogi'r gallu i ymgysylltu. Nododd, er bod cynnydd wedi'i wneud, fod y sefydliad yn parhau i fod yng nghamau cynnar ei aeddfedrwydd a bod angen gwaith pellach i wreiddio dull cyson.
- Cynnydd mewn perthynas ag ymgysylltu ag ieuenctid, a dywedodd bod 12 o bobl ifanc wedi cael eu recriwtio i Raglen Pobl Ifanc wedi'i hadnewyddu yn dilyn diddordeb cryf, a fyddai'n cefnogi dull mwy strwythuredig ac ystyrlon o ymgysylltu â'r grŵp hwn.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Trafod bod y gwaith yn dangos cyfeiriad cadarnhaol, a nodi'n benodol pa mor bwysig yw symud tuag at ddull mwy cydlynol a phwrpasol o ymgysylltu ar draws y sefydliad.
- Croesawu datblygiad y Rhaglen Pobl Ifanc, gan nodi y byddai rhaglen strwythuredig gyda phwrpas clir ac allbynnau wedi'u diffinio yn cryfhau gallu'r sefydliad i ddangos effaith.

**Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:**

- Cymryd **sicrwydd** ynghylch y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cryfhau dull Iechyd Cyhoeddus Cymru o ymgysylltu â phobl a chymunedau.
- **Nodi'r** camau a gymerwyd i wella galluogrwydd a gweithio mewn partneriaeth ar draws y sefydliad o fewn trefniadau sefydliadol presennol.
- **Nodi** y byddai'r Tîm Ymgysylltu a Chydweithio yn symud tuag at swyddogaeth Cydraddoldeb, Cynnwys a Phrofiad Pobl (EIPE), i gefnogi cydymffurfiaeth sefydliadol mewn perthynas â'n dyletswyddau cydraddoldeb.

| **QSIC 2026.06.04/4.3** | **Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella a Dyletswydd Gonestrwydd 2025/26** |
|---|---|

Cyflwynodd AC Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella ac Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Gonestrwydd, gan dynnu sylw at:

- Y sefyllfa flynyddol a newidiadau deddfwriaethol diweddar.
- Cyflwyno rheoliadau "Gwrando ar Bobl", gan gynnwys amserlenni diwygiedig ar gyfer rheoli pryderon a chynnydd yn y trothwy ariannol ar gyfer gwneud iawn o £25,000 i £50,000.
- Mai prif fantais y trefniadau diwygiedig oedd gwella profiadau defnyddwyr y gwasanaeth, yn enwedig drwy ymgysylltu mwy ystyrlon yn gynharach yn y broses. Nododd AC fod y dull hwn yn cefnogi disgwyliadau cliriach, prydlondeb atebion a datrysiadau mwy effeithiol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Trafod bod absenoldeb llwyth gwaith cynyddol yn dilyn newid rheoleiddiol yn sefyllfa gadarnhaol, ond gofynnwyd a fyddai hyn yn aros yn sefydlog wrth i ymwybyddiaeth o'r trefniadau newydd gynyddu.
- Cadarnhaodd AC fod asesiad sylfaenol wedi'i gynnal i ddeall effaith bosibl y newidiadau hyn a chadarnhaodd, hyd yn hyn, nad oedd cynnydd sylweddol wedi bod yn y llwyth gwaith. Roedd AC o'r farn mai'r rheswm dros hyn oedd bod y Sefydliad eisoes yn gweithredu gydag arferion tebyg, gan gynnwys ymgysylltu

Heb ei Gadarnhau

â chwynion yn gynnar, a nododd fod y dull diwygiedig wedi cryfhau ansawdd y broses o drin cwynion, yn enwedig drwy sgyrsiau cynnar gwell ag achwynwyr a chytundeb cliriach ar y canlyniadau a ddymunir.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** ynghylch rheolaeth effeithiol y sefydliad o roi Rheoliadau Gweithio i Wella (2011) ar waith.
- **Nodi'r** gwersi o'r ddau Achos Dyletswydd Gonestrwydd (DOC).
- Cymryd **sicrwydd** bod achosion DOC yn cael eu rheoli yn unol â chanllawiau rheoleiddio a'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol, gan gynnwys dysgu sefydliadol.

| **QSIC 2026.06.04/4.4** | **Sicrwydd Gwasanaeth Sgrinio** |
|---|---|

Cyflwynodd MK yr adroddiad, a dywedodd ei fod yn rhoi trosolwg o berfformiad ar draws rhaglenni sgrinio ac yn amlinellu cynlluniau gwella ar gyfer meysydd sydd islaw'r safon, gan gynnwys sgrinio'r coluddyn, sgrinio'r fron a sgrinio llygaid diabetig.

Cyflwynodd SdS drosolwg o'r dull o ran sicrwydd, gan nodi bod yr adroddiad wedi'i strwythuro o amgylch parthau ansawdd ac yn cynnwys cynlluniau gwella manwl pan fo perfformiad yn is na'r safonau gofynnol.

Tynnodd GB sylw at y ffaith bod oedi o ran capasiti colonosgopi wedi effeithio ar berfformiad sgrinio'r coluddyn. Roedd prinder hysbys yn cael ei yrru gan gyfyngiadau o ran y gweithlu a mwy o alw o ganlyniad i ehangu'r rhaglen a phrofion mwy sensitif. Amlinellodd y camau sy'n cael eu cymryd, gan gynnwys datblygu'r gweithlu, trefniadau achredu trawsffiniol, a gweithio'n agosach gyda Byrddau Iechyd drwy gynllunio adferiad a'r Rhaglen Gwella Profion Sgrinio Colonosgopi.

Tynnodd GB sylw at y ffaith bod perfformiad sgrinio'r fron yn parhau i wella mewn rhai ardaloedd; fodd bynnag, roedd heriau'n parhau o ran amseroldeb asesiadau, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, wedi'u gyrru gan bwysau ar y gweithlu. Roedd y camau lliniaru yn cynnwys gweithio trawsranbarthol, ehangu clinigau dan arweiniad radioleg, a datblygu'r gweithlu'n barhaus.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Gofyn a oedd dealltwriaeth lawn o'r bwlch capasiti, gan gynnwys gofynion gwella a'r galw yn y dyfodol, ac a oedd aliniad â Byrddau Iechyd ynghylch maint y bwlch capasiti a sut y gellid ei bontio.
- Cadarnhaodd GB fod modelu capasiti wedi'i gynnal, bod dealltwriaeth dda o'r galw a'r capasiti gofynnol, a bod gan y Byrddau Iechyd welededd o hyn drwy drafodaeth rhwng y Gweithredwyr. Fodd bynnag, dywedodd fod yr her o ran darparu'r capasiti angenrheidiol yn parhau er gwaethaf aliniad â byrddau iechyd ynghylch maint y bwlch capasiti.
- Gofyn a oedd y cyfyngiad yn bennaf yn gysylltiedig â'r gweithlu ynteu a oedd yn gysylltiedig â seilwaith. Gofynnwyd hefyd a ellid cyfleu'r cynlluniau o ran y

Heb eu Gadarnhau

gweithlu a'r amserlenni ar gyfer hyfforddiant yn glir er mwyn cael sicrwydd ar daflwybrau adferiad.
- Dywedodd GB fod y prif gyfyngiad yn ymwneud ag argaeledd colonosgopyddion hyfforddedig, er bod gofynion seilwaith a chymorth hefyd yn berthnasol wrth gynyddu capasiti. Cadarnhaodd GB fod datblygu'r gweithlu yn elfen allweddol o waith gwella parhaus.
- Tynnodd sylw at bwysigrwydd deall goblygiadau cynyddu capasiti, gan gynnwys ystâd, offer a gofynion y gweithlu ategol, i'r system lawn (gan gynnwys y bwrdd iechyd), gan nodi y gallai'r ffactorau hyn effeithio'n sylweddol ar amserlenni cyflawni.
- Gofynnwyd a oedd defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) wedi cael ei ystyried i gefnogi blaenoriaethu o fewn llwybrau sgrinio'r fron, ac i helpu i reoli'r pwysau ar gapasiti.
- Cadarnhaodd GB, er bod treialon yn cael eu cynnal i edrych ar ddeallusrwydd artiffisial, nad oedd yn cael ei weithredu ar hyn o bryd o fewn darpariaeth gwasanaethau gweithredol. Dywedodd y gellid archwilio hyn ymhellach i helpu gyda'r bwlch capasiti.

Dywedodd BB fod Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) yn parhau i wynebu pwysau capasiti, gyda mwy a mwy o alw am y gwasanaeth a nifer sylweddol o gleifion sy'n hwyr am brofion sgrinio. Prydlondeb oedd y prif her o hyd, yn enwedig i'r garfan sy'n cael eu hailalw'n flynyddol. Amlinellodd BB gamau gweithredu i gynyddu capasiti ac annog mwy o ddefnydd, gan gynnwys: oriau estynedig, clinigau symudol, prosesau archebu gwell a mentrau defnyddio clinigau. Nododd fod y pwysau ar y gweithlu a'r cyfyngiadau ar leoliadau yn risgiau parhaus. Aeth BB ymlaen i dynnu sylw at waith arloesi, gan gynnwys gwerthusiadau camera o fewn y gwasanaeth, a oedd â'r potensial i gynyddu capasiti a gwella effeithlonrwydd.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:
- Trafod y bwlch parhaus rhwng capasiti a galw ac awgrymu y gellid ceisio cefnogaeth gan Uned Perfformiad a Gwella'r GIG ynghylch defnydd clinigau a chyfran y defnydd.
- Cadarnhaodd BB fod y camau gweithredu yn canolbwyntio ar gynyddu capasiti a gwella'r defnydd, gyda gwelliannau eisoes i'w gweld yng nghyfraddau llenwi clinigau.
- Gofyn am eglurhad ynghylch yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer gweithredu canlyniadau'r gwerthusiadau camera. Dywedodd BB y byddai'r gwaith o gynllunio sut i'w roi ar waith yn digwydd dros yr haf, gyda'r posibilrwydd o'i gyflwyno o ddechrau 2027.

Rhannodd BB yr wybodaeth ddiweddaraf am degwch ac ymgysylltu, gan dynnu sylw at y strategaeth tegwch sgrinio sydd wedi'i hadnewyddu ac at y camau sydd wedi'u targedu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio, gan gynnwys ymgysylltu â phartneriaid gofal sylfaenol a chymunedol i wella'r nifer sy'n cael eu sgrinio ar draws poblogaethau dan anfantais a defnyddio data lleol i ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae nifer isel o bobl yn cael eu sgrinio.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

Heb eu Gadarnhau

- Gofyn pa mor effeithiol oedd y gwaith i gyrraedd y poblogaethau sy'n cael eu tanwasanaethu, effaith bosibl cynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r system ar gapasiti'r system, a sut yr oedd y Sefydliad yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y llwybr sgrinio. Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor sut roedd y Sefydliad yn gweithio gyda phartneriaid y system ehangach, gan gynnwys byrddau iechyd, gofal sylfaenol a mewnbwn a chanlyniadau segmentau o'r boblogaeth.
- Cadarnhaodd BB fod dull tegwch strwythuredig ar waith, gan gynnwys ymyriadau wedi'u targedu, cydweithio â gofal sylfaenol, a defnyddio data lleol i ganolbwyntio ar ardaloedd lle nad oes llawer yn defnyddio'r gwasanaethau. Nododd fod anghydraddoldebau yn parhau i fod yn her gydnabyddedig, gyda gwaith parhaus yn ofynnol er mwyn cael effaith fesuradwy.

Rhoddodd SdS amlinelliad o'r dull o ymdrin ag ansawdd o fewn gwasanaethau sgrinio, gan dynnu sylw at y defnydd o fodel llywodraethu "tair llinell amddiffyn" sy'n gweithredu ar draws lefelau rhaglenni, adrannau a sefydliadau. Dywedodd fod gwaith wedi'i wneud i ymgorffori dealltwriaeth gyson o feysydd ansawdd a bod adroddiadau wedi'u cael am welliannau o ran rheoli digwyddiadau, gan gynnwys prydlondeb cau achosion ac ansawdd ymchwiliadau, gyda chefnogaeth gan brosesau cryfach ar gyfer rhannu dysgu ar draws rhaglenni.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Awgrymu y gallai'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd ystyried trafodaeth bellach ar atebion digidol mewn sgrinio, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial.
- Croesawodd MK yr awgrym hwn a chytunodd i weithio gydag Iain Bell, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd i gyflwyno papur i'r Pwyllgor a fyddai'n amlinellu'r cyfleoedd digidol, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o fewn gwasanaethau sgrinio.

**Cam Gweithredu: MK**

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am y cyflwyniad cynhwysfawr a nododd y byddai trafodaeth bellach yn cael ei chynnal gyda Chadeirydd y Bwrdd a Chadeiryddion Traws-bwyllgor ynghylch gofynion sicrwydd ac adrodd yn y dyfodol.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y flaenoriaeth ar weithio tuag at ddarparu rhaglenni sgrinio o safon yn unol â darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol i'r boblogaeth yng Nghymru.

| **QSIC 2026.06.04/4.5.1** | **Sicrwydd Risg – Cofrestr Risg Strategol** |
|---|---|

Cyflwynodd DG yr adroddiad, a thynnodd sylw at sefyllfa'r sefydliad ar 1 Ebrill 2026, gan nodi nad oedd unrhyw newidiadau wedi bod i sgoriau risg ers y cyfnod adrodd blaenorol. Roedd Risg Strategol 3 ychydig y tu allan i'r goddefiant, a soniodd DG am y bwriad i ddarparu sesiwn risg wedi'i driongli ar sicrwydd sgrinio yng nghyfarfod mis Medi.

**Cam Gweithredu: DG**

Heb eu Gadarnhau

Tynnodd MK sylw at ymchwiliad manwl a gynhaliwyd yn ddiweddar ar y risg a oedd yn cwmpasu camau gweithredu a lliniaru. Nododd yr heriau gweithredol diweddar ynghylch yr ymateb i'r hantavirus ac Ebola, yn ogystal â chefnogaeth aelodau staff ar draws y Sefydliad i gefnogi'r ymateb a'r parodrwydd parhaus ar gyfer Ebola. Nododd y bwriad i gynnal ymarfer ar draws y system ar 23 Mehefin.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Tynnu sylw at y berthynas rhwng Risg Strategol 3 a Risg Strategol 2, yr effaith ar staff a llesiant staff, a'r angen i alinio ystyriaeth o'r ddau risg, ochr yn ochr â'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol.
- Cadarnhaodd DG fod gwaith ar y gweill i gryfhau'r groesffordd rhwng risgiau strategol ar draws strwythurau'r Pwyllgor.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Risg Strategol o fewn ei gylch gwaith.

| **QSIC 2026.06.04/4.5.2** | **Sicrwydd Risg - Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** |
|---|---|

Cyflwynodd DG yr adroddiad, a oedd yn cyflwyno'r sefyllfa Risg Gorfforaethol a gymeradwywyd ddiwethaf gan y Tîm Arweinyddiaeth. Dywedodd nad oedd unrhyw risgiau newydd a bod trefniadau ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol yn parhau i aeddfedu, gyda thrafodaethau mwy deinamig a chysylltiedig yn digwydd ar lefel arweinyddiaeth.

Diolchodd y Pwyllgor i DG am y diweddariad a chafodd **sicrwydd** ynghylch y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i diweddaru o fewn eu cylch gwaith.

| **QSIC 2026.06.04/4.6.1** | **Iechyd a Diogelwch Chwarter 4 2025–26** |
|---|---|

Cyflwynodd ND yr adroddiad, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Ni chafwyd yr un adroddiad am ddigwyddiad Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) yn ystod y cyfnod adrodd, a bod y sefydliad wedi cynnal cydymffurfiaeth 100% â gofynion arolygu statudol ar draws diogelwch nwy, trydan, dŵr, tân ac asbestos.
- Parhaodd y gwaith i ddatblygu'r argymhellion a ddeilliodd o broses rheoli digwyddiadau dŵr Bron Brawf Cymru.
- Gwelliant parhaus o ran cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol, gan gynnwys asesiadau gweithio gartref.
- Cwblhau'r Arolwg Diwylliant Iechyd a Diogelwch, a oedd wedi nodi canfyddiadau cadarnhaol a meysydd i'w gwella, gan gynnwys gweledededd arweinyddiaeth, cyfathrebu, a chefnogaeth i ffyrdd newydd o weithio.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.

| **QSIC 2026.06.04/4.6.2** | **Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch** |
|---|---|

Cyflwynodd ND yr adroddiad, a dywedodd ei fod wedi'i gryfhau i roi mwy o sicrwydd ac eglurder ar berfformiad sefydliadol.

Tynnodd sylw at y canlynol:

- Roedd trefniadau sicrwydd iechyd a diogelwch wedi parhau i ddatblygu a chryfhau ac roedd gweledededd data cydymffurfiaeth a hyfforddiant wedi gwella.

Heb eu Gadarnhau

- Roedd datrysiadau digidol, gan gynnwys AMaT a'r system Rheoli Cyfleusterau â Chymorth Cyfrifiadur, wedi'u rhoi ar waith i gefnogi'r gwaith archwilio a chydymffurfiaeth/rheoli ystadau.
- Roedd y Sefydliad wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol ac wedi cryfhau rheolaeth digwyddiadau, gyda gwell cyfraddau cau.
- Roedd blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2026/27 yn cynnwys rhoi Cynllun Gweithredu Diwylliant Iechyd a Diogelwch ar waith. Roedd y cynllun yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, cyfathrebu, hyfforddiant a chefnogi'r gweithlu.

Holodd y Pwyllgor a ellid meincnodi nifer yr adroddiadau RIDDOR i roi sicrwydd ynghylch a oedd lefelau adrodd o fewn y normau disgwyliedig.

Cydnabu ND y pwynt a dywedodd, er nad oedd meincnodi wedi'i gynnal eto, fod lefelau adrodd RIDDOR yn ymddangos yn isel o'i gymharu â gweithgaredd sefydliadol. Cadarnhaodd nad oedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi codi unrhyw bryderon, gan nodi nad oedd lefelau adrodd yn anghymesur.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod trefniadau priodol ar waith i fonitro perfformiad iechyd a diogelwch, rheoli risgiau, ymateb i ddigwyddiadau ac ymgysylltu rheoleiddiol, a datblygu camau gwella drwy'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a llwybrau llywodraethu sefydledig.

| **QSIC 2026.06.04/4.7** | **Diweddariad ar Bolisïau Corfforaethol Chwemisol** |
|---|---|

Cyflwynodd LB y diweddariad chwemisol ar bolisïau corfforaethol, a dywedodd bod 32 o bolisïau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Dywedodd fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, gyda'r rhan fwyaf o'r polisïau (90%) yn gyfredol yn dilyn cymeradwyaethau yn gynharach yn agenda'r cyfarfod. Roedd tri pholisi dal angen diweddaru, gydag amserlenni clir ar waith ar gyfer eu cwblhau.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch terminoleg yr adroddiad. Cadarnhaodd LB y cyfeiriad at hysbysiadau Diogelwch a Rhybuddion sy'n gysylltiedig â pholisi.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd o ran adolygu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill.

| **QSIC 2026.06.04/5** | **Eitemau i'w Nodi** |
|---|---|
| **QSIC 2026.06.04/5.1** | **Archwilio** |

**Nododd** y Pwyllgor y canlynol:

- Diweddariad y Traciwr Argymhellion Archwilio ac ystyriodd unrhyw effaith ar gynlluniau gwaith / meysydd ffocws y Pwyllgor.
- Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Gronfa Risg Cymru (sgôr sicrwydd sylweddol).

| **QSIC 2026.06.04/5.2** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |
|---|---|

**Nododd** y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor.

| **Rhan B** | **Busnes Perfformiad a Gwella'r GIG** |
|---|---|

Heb eu Gadarnhau

| QSIC 2026.06.04/6 | Datganiad o Fuddiant |
|---|---|
| Nid oedd datganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant. | |

| QSIC 2026.06.04/7.1 | Adroddiad Cydymffurfedd Llywodraethu Chwarterol Perfformiad a Gwella GIG Cymru (Ch4) |
|---|---|

Cyflwynodd SF ddiweddariad Uned Perfformiad a Gwella'r GIG, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Cofnodwyd chwe digwyddiad iechyd a diogelwch yn ystod y cyfnod, ac nid oedd angen uwchgyfeirio yr un ohonynt fel Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol.
- Derbyniwyd un gŵyn, a oedd yn ymwneud â chydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. Cymerwyd camau rhagweithiol i ymateb i'r gŵyn. Soniodd SF hefyd am y bwriad i recriwtio swyddog cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Ni chafodd unrhyw hawliadau eu hadrodd yn ystod y chwarter hwn.
- Roedd cydymffurfedd â hyfforddiant statudol a gorfodol yn parhau ar lefel foddhaol.
- Roedd gwaith ar y gweill i adolygu gofynion hyfforddiant diogelu a chryfhau ymwybyddiaeth sefydliadol, wedi'i gefnogi gan nodi arweinydd diogelu pwrpasol.

Holodd y Pwyllgor ai diffyg adroddiadau oedd yn gyfrifol am absenoldeb pryderon diogelu.

Atebodd SF trwy ddweud ei bod yn cydnabod y pwynt hwnnw, er nad oedd unrhyw bryderon wedi'u nodi, fod gwaith ychwanegol wedi'i gynllunio i gryfhau ymwybyddiaeth, diwylliant lleisio barn a dealltwriaeth o ddiogelu ar draws y sefydliad. Nododd fod maint cymharol fach y sefydliad a'i gysylltedd yn ei gwneud yn haws i nodi problemau'n gynnar, a chytunodd fod adolygiad parhaus yn briodol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

**Iechyd a Diogelwch**

- Cymryd **sicrwydd** bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfedd ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.

**Cydymffurfedd Adrodd ar Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol**

- **Nodwyd** nad oedd unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy i'w hadrodd.

**Cydymffurfedd Cwynion (gan gynnwys Gweithio i Wella os yw'n berthnasol)**

- **Nodwyd** bod un gŵyn wedi dod i law yn ystod y cyfnod hwn.

**Adrodd ar hawliadau (hawliadau gan staff a thrydydd partïon)**

- **Nodwyd** nad oedd unrhyw hawliadau wedi dod i law yn ystod y cyfnod hwn a **chafwyd sicrwydd** bod Hawliadau'n cael eu rheoli'n briodol.

**Cydymffurfedd DATIX**

- **Nodwyd** bod chwe digwyddiad wedi cael eu hadrodd ar Datix ar gyfer y

Heb eu Gadarnhau

cyfnod hwn a chafwyd **sicrwydd** bod y broses briodol wedi'i dilyn i reoli'r digwyddiadau hyn.

**Cydymffurfedd diogelu**

- **Nodwyd** nad oedd unrhyw broblemau diogelu wedi'u hadrodd ar gyfer y cyfnod hwn.

| **QSIC 2026.06.04/7.2** | **Datganiad Sicrwydd Blynyddol Perfformiad a Gwella GIG Cymru** |
|---|---|
| Cyflwynodd SF yr adroddiad, gan amlinellu'r trefniadau llywodraethu, cydymffurfedd ac atebolrwydd sydd ar waith o dan y trefniadau cynnal gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a chadarnhaodd fod gofynion statudol a rheoleiddiol wedi'u bodloni.<br><br>Aeth yn ei blaen i amlinellu gwelliannau o ran trosolwg risg, ystadau a chydymffurfedd, gan gynnwys canoli swyddogaethau ystadau ac iechyd a diogelwch, a soniodd am y gwaith parhaus i gryfhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol ehangach, gan gynnwys integreiddio ystyriaethau llesiant i gynllunio sefydliadol.<br><br>Diolchodd y Pwyllgor i SF am yr adroddiad cynhwysfawr a chafwyd **sicrwydd ynghylch** cydymffurfiaeth â llywodraethu Perfformiad a Gwella GIG Cymru. | |

| **QSIC 2026.06.04/8** | **Gweinyddiaeth i Gloi** |
|---|---|
| **QSIC 2026.06.04/8.1** | **Cau'r Cyfarfod Cyhoeddus** |
| Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf: 10 Medi 2026 | |
| *Daeth y sesiwn agored i ben am 12:35* | |

Heb eu Gadarnhau